ARDALOEDD CADWRAETH ADDAS AR GYFER YR UNFED GANRIF AR HUGAIN

Cyflwyniad a Throsolwg Polisi Cynllunio

Chambers Conservation Ltd.

Argraffiad

Argraffiadau: Drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

Chambers Conservation Ltd
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 09787239
Cyfeiriad cofrestredig: Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad
2.0 Diben y Prosiect
3.0 Polisi
3.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
3.2 Ardaloedd Cadwraeth
3.3 Polisi Cynllunio Cenedlaethol
3.4 Polisi Cynllunio Lleol
4.0 Lle mae cael gwybod rhagor?

1.0 Cyflwyniad

1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Mae'r ddogfen **Cyflwyniad a Throsolwg Polisi Cynllunio** hon yn cynnwys esboniad o ddiben a methodoleg y prosiect, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i'r cyd-destun, y cynllunio a'r fframwaith deddfwriaethol.

1.1.2 Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â **Chyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth, Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK** a baratowyd er mwyn ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd presennol, gan roi cyngor ymarferol ynghylch sut mae gwella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol ac o bwys lleol heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

1.1.3 Yn ychwanegol at y ddwy ddogfen hyn mae Gwerthusiad a Chynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth wedi'u paratoi ar gyfer pob un o 14 Ardal Gadwraeth y Parc Cenedlaethol. Ceir y dogfennau hyn yma: **WEBLINK**.

1.1.4 Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r ddogfen Gyflwynol a'r Gwerthusiad a Chynlluniau Rheolaeth yr Ardaloedd Cadwraeth unigol.

1.2 Amgylchedd Hanesyddol Eryri

1.2.1 Dynodwyd Eryri'n Barc Cenedlaethol oherwydd ei thirlun trawiadol, ei phrydferthwch naturiol a'i threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, sydd oll yn cyfrannu at ei 'Rhinweddau Arbennig'. Gwedd ddiriaethol y 'Rhinweddau Arbennig' hyn yw mynyddoedd geirwon, rhosydd uchel, dyffrynnoedd coediog, llynnoedd, rhaeadrau, aberoedd, y glannau, a llawer o adeiladau traddodiadol a hanesyddol o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol, fel henebion carreg, cestyll ac abatai, adeiladau fferm ynghyd â'u waliau a'u ffiniau, ac amrywiaeth o bensaernïaeth. Mae'r rhain oll yn cyfrannu at gymeriad neilltuol yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn y Parc Cenedlaethol. Mae cadwraeth a gwella'r dreftadaeth adeiledig yn ffactor o bwys wrth ystyried datblygu yn yr ardaloedd arbennig hyn neu'n nesaf atynt.

01 Mae Ardaloedd Cadwraeth y Parc Cenedlaethol yn amrywiol. O aneddiadau glan môr i drefi marchnad, cynrychiolant gyfoeth treftadaeth naturiol a diwylliannol yr ardal.

1.2.2 Mae'r elfennau hynny o'r Amgylchedd Hanesyddol a glustnodwyd yn rhai o ddiddordeb neu bwys cenedlaethol arbennig wedi'u dynodi'n Henebion Cofrestredig, yn Adeiladau Rhestredig a/neu'n Barciau, Gerddi a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig.

1.2.3 Yn ogystal â bod yn ffynonellau diriaethol treftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol Eryri, cydnabyddir bod yr asedau hanesyddol yn sylfaen bwysig ar gyfer ffyniant yr economi, cyflogaeth a thwristiaeth ym Mharc Cenedlaethol Eryri, yn enwedig gan fod twristiaeth yn un o'r prif gyflogwyr. 'Rhinweddau Arbennig' y Parc yw'r prif atyniad, ac y mae'n hanfodol diogelu a sicrhau bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn parhau i ystyried y Rhinweddau Arbennig hyn yn flaenoriaeth.

1.2.4 Bwriedir i'r Gwerthusiad a'r Cynlluniau Rheolaeth yr Ardaloedd Cadwraeth i gynorthwyo'r Awdurdod a chymunedau'r Ardaloedd Cadwraeth i ddeall eu Diddordeb Arbennig a sut y gellir ei ddiogelu a'i wella. Ynghyd â'r *Cyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni Mewn Ardaloedd Cadwraeth, Canllaw Cynllunio ac Ymarferol*, y bwriad yw sicrhau y gallant ymaddasu at heriau'r unfed ganrif ar hugain.

2.0 Diben y Prosiect

2.1 Ardaloedd Cadwraeth Addas ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain

2.1.1 Sbardunwyd y prosiect gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) sydd eisiau sefydlu rhaglen uchelgeisiol a thymor hir o wella Ardaloedd Cadwraeth y Parc mewn modd sensitif. Cefnogid hyn trwy gynnig cyngor parthed gweithredu a gyfranogai at ddiogelu a gwella'r Ardaloedd Cadwraeth, ac a geisiai eu gwneud yn fwy ynni-effeithlon hefyd. Rhagwelir y byddai hyn o gymorth i fynd i'r afael â phroblemau tlodi tanwydd, a datblygu economaidd a chodi ymwybyddiaeth.

2.1.2 Ar gyfer y prosiect 'roedd angen gwerthuso pob un o 14 Ardal Gadwraeth Eryri a chynhyrchu cynlluniau rheoli cysylltiedig a geisient gyflawni amcanion statudol cadw a gwella'r Ardaloedd, ac ystyried cyfleoedd ar gyfer eu gwneud yn fwy ynni-effeithlon hefyd. Mae ymgysylltu â'r cymunedau lleol

02 Mae treftadaeth adeiledig y Parc Cenedlaethol yn cynnwys trefi canoloesol mewn cyflwr da fel Dolgellau.

03 Mae'r dirwedd a'r gosodiad yn hanfodol ar gyfer Diddordeb Arbennig y mwyafrif o Ardaloedd Cadwraeth y Parc Cenedlaethol,fel yma ym Maentwrog.

perthnasol yn rhan allweddol o'r broses hefyd, a hwyluswyd hynny trwy Gynghorau Cymuned lleol yn y mwyafrif o achosion.

2.1.3 Mae'r prosiect yn ymateb i ofyniad *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* (Mai 2017) Llywodraeth Cymru. Mae hwnnw'n gofyn i Awdurdodau Lleol i baratoi asesiadau manwl o ddiddordeb, cymeriad a golwg arbennig eu Hardaloedd Cadwraeth, gyda chynigion ar gyfer eu gwarchod a gwella mewn Cynllun Rheolaeth.

2.1.4 Mae gan Eryri 14 Ardal Gadwraeth wedi'u dynodi yn rhinwedd eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, sy'n gartref i gyfran helaeth o 1,900 adeilad hanesyddol y Parc Cenedlaethol. Yr Ardaloedd Cadwraeth yw:

- Abaty Cymer (yn ymyl Llanelltyd)
- Aberdyfi
- Abergwyngregyn
- Beddgelert*
- Betws y Coed
- Dolbenmaen
- Dolgellau
- Harlech
- Llanllechid
- Maentwrog
- Nant Peris
- Nantmor
- Pandy'r Odyn
- Y Bala

* Diogelir Beddgelert gan gyfarwyddyd Erthygl 4, hefyd. Gweler Cynllun Ardal Gadwraeth Beddgelert a'r crynodeb isod.

3.0 Rheolau Polisi a Chynllunio

Mae'r trosolwg isod yn ymwneud ag Ardaloedd Cadwraeth ac agweddau mwy cyffredinol yr amgylchedd hanesyddol, ac nid yn fanwl ag elfennau megis adeiladau rhestredig.

3.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

04 Perthynas y dreftadaeth adeiledig i'r naturiol, Betws yCoed. (2021).

05 Mae'r ardaloedd yn cadw treftadaeth hir y fro fel cyrchfan ymwelwyr, hefyd. Y Royal Oak, Betws y Coed (2021).

3.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i '*wella llesiant economaidd, cymdeithasol, a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau*.'

3.1.2 Cydnabyddir yn eang y gall yr amgylchedd hanesyddol effeithio er gwell ar bobl a chymunedau, a chyfrannu'n gadarnhaol iawn at ansawdd bywyd a llesiant. Os yw'r amgylchedd hanesyddol am barhau i ddwyn ei buddion helaeth i gymunedau, mae angen clustnodi'r hyn sy'n bwysig a rheoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy.

3.1.3 Mae rheoli newid ag amgyffrediad llwyr o gymeriad a phwysigrwydd ardal yn hanfodol ar gyfer cynnal ansawdd arbennig ardal neilltuol (neu unrhyw ased treftadaeth). Ategir hyn trwy godi ymwybyddiaeth ac amgyffrediad o'r buddion y gallant eu dwyn, a'r medrau angenrheidiol ar gyfer medru gwneud hynny.

3.2 Ardaloedd Cadwraeth

3.2.1 Cyflwynwyd Ardaloedd Cadwraeth gan Ddeddf Amwynderau Dinesig 1967 ac fe'u diffiniwyd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990) yn '*ardaloedd o ddiddordeb pensaerïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol diogelu neu harddu eu cymeriad neu'u golwg*'.

Trosolwg

3.2.2 Mae gan ddynodiad yn Ardal Gadwraeth sawl goblygiad. Yn bwysicaf, rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri roi sylw neilltuol i gadw neu wella'r Ardal Gadwraeth wrth iddynt weithredu eu dibenion cynllunio.

3.2.3 Ni fwriedir i ddynodiad Ardal Gadwraeth atal newid, ond golyga yr ystyrir arwyddocâd yr ardal, fel y'i diffiniwyd yn yr Gwerthusiad Ardal Gadwraeth, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

3.2.4 Yn ychwanegol at y gofynion cyffredinol mae rhai rheolau rheoliadol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys dymchweliadau, coed, a chyfyngiadau ar rai hawliau datblygu a ganiateir.

3.2.5 Crynhoir y rheolau hyn isod, ond ceir canllaw manylach yn arweiniad Cadw ar reoli Ardaloedd Cadwraeth:

06 Mae llawer ardal yn cyflwyno diwylliant cynnar Cymru a'r rheolaeth frodorol cyn dyfodiad Edward I. Abaty Cymer. (2021).

07 Newidiodd y cyfnod o drawsnewid wedi dyfodiad Edward y dirwedd a'r dreftadaeth bensaerïol yn sylfaenol. Castell Harlech. (2021).

- https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20CY.pdf

Rheolaeth dros Ddymchwel mewn Ardaloedd Cadwraeth

3.2.6 Mae angen caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel adeilad nas rhestrwyd mewn Ardal Gadwraeth. Mae rhagdybiaeth gref o blaid cadw adeiladau sy'n cyfrannu er gwell at gymeriad neu olwg Ardal Gadwraeth.

3.2.7 Mae'n annhebyg y rhoddir caniatâd dymchwel heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer ailddefnyddio'r safle, sy'n adlewyrchu ansawdd arbennig yr ardal ac yn ymateb iddo.

3.2.8 Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo nad oes angen caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer rhai mathau o waith: Dymchwel adeilad llai na 115 medr ciwbig o gyfanswm cynnwys ciwbig, neu ddymchwel nodwedd ffin adeiledig lai nag un medr o uchder lle bo'n ffinio ar briffordd, dyfrffos neu fan agored, neu lai na dau fedr o uchder yn unrhyw achos arall, er enghraifft.

3.2.9 Bydd angen datganiad effaith ar dreftadaeth ar gyfer ceisiadau am ganiatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel mewn Ardal Gadwraeth.

Rheoli Hysbysebion mewnArdaloedd Cadwraeth

3.2.10 Un o ddibenion y drefn rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae sawl Ardal y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys niferoedd sylweddol o eiddo masnachol, fel Betws y Coed neu Ddolgellau. Mae'r mathau o hysbyseb y mae angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn destun amrywiaeth eang o ffactorau, ac efallai fod angen Caniatâd Hysbysebu yn 'Ardal Rheolaeth Arbennig' Parc Cenedlaethol Eryri lle daw cynnig tan ofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, Rhestr 3, Rhan 1. Cyfeirier at:

https://www.legislation.gov.uk/uksi/1992/666/contents/made

3.2.11 Dylid cynllunio arwyddion i ymateb i gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth benodol a'i wella.

08 Adlewyrchir Anghydffurfiaeth a phwysigrwydd y Gymraeg yn y dreftadaeth adeiledig, hefyd. Y Bala (2021).

09 Mae'r arfarniadau'n clustnodi adeiladau ym mherygl a'r angen am sicrhau dyfodol hyfyw iddynt. Abergwyngregyn. (2021).

[1] https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20EN.pdf p.9.

Coed mewn Ardaloedd Cadwraeth

3.2.12 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol rym diogelu coed a choetiroedd trwy wneud Gorchmynion Cadw Coed (GCC). Yn ychwanegol, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn Ardaloedd Cadwraeth sydd ddim yn destun GCC. Rhaid i unrhyw un sy'n cynnig cwympo, blaendorri neu docio coeden mewn Ardal Gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, yn ystod pa amser gall yr awdurdod benderfynu a ddylid diogelu'r goeden honno â GCC. Nid yw'r gofyniad hwn yn cynnwys coed o dan faint penodol, na'r rhai y profir eu bod yn feirwon, yn marw, neu'n beryglus.

Cyfarwyddiadau Erthygl 4

3.2.13 Mae cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn rheolau ychwanegol a weithredir gan yr awdurdod cynllunio lleol. Cyfyngant gylch hawliau datblygu a ganiateir, yn aml mewn Ardal Gadwraeth. Lle bo cyfarwyddyd Erthygl 4 mewn grym, fe all y bydd angen cais cynllunio ar gyfer datblygu a fuasai'n ddatblygiad caniadedig fel arall. Yr unig Ardal Gadwraeth yn Eryri sydd â chyfarwyddyd Erthygl 4 ar hyn o bryd yw Beddgelert.

3.3 Polisi Cenedlaethol

3.3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 11, Chwefror 2021) yn gosod cyd-destun polisi defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru ac yn clustnodi'r angen am hyrwyddo dylunio da.

https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

3.3.2 Ceir polisi ynghylch yr amgylchedd hanesyddol ym Mhennod 6 PCC, a ddiweddarwyd yn 2016 i adlewyrchu cyflwyno'r *Nodyn Cyngor Technegol*(NCT) 24 newydd, *Yr Amgylchedd Hanesyddol* (Mai 2017). Y mae yn awr yn cynnwys polisïau cenedlaethol sy'n mynnu bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn rhagdybio'n gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad Ardal Gadwraeth a/neu ei gosodiad wrth ystyried cynigion datblygu.

3.3.3 Mae NCT24 yn disodli'r Cylchlythyr Swyddfa Gymreig 61/96 blaenorol. Darpara ragor o bolisïau ynghylch rheoli pob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol, a newidia'r egwyddor rheoli sefydledig o un o gadw i un o fedru cyfiawnhau newidiadau o fewn yr amgylchedd hanesyddol.

3.3.4 Gan gyfeirio'n benodol at Ardaloedd Cadwraeth, yn PCC (6.1.6),mae amcanion penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn ceisio:

10 Mae diwydiant wedi llunio'r dirwedd a'r dreftadaeth adeiledig, hefyd. Nantmor (2021).

11Mae manylion fel drysau a ffenestri yn hanfodol ar gyfer diddordeb arbennig mwyafrif yr Ardaloedd Cadwraeth. Dolgellau (2021).

- *… diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus;*

3.3.5 Mae NCT 24 yn cyfeirio at *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (2011) fel dogfen werthfawr lle anogir ymgeiswyr a sefydliadau eraill yn gryf i ddefnyddio'r Egwyddorion Cadwraeth hyn wrth ystyried cynigion datblygu a gwaith arall ar asedau hanesyddol.

3.3.6 Ceir dogfen Egwyddorion Cadwraeth Cadw yma:

- https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth/egwyddorion-cadwraeth

3.3.7 Yn gyffredinol, Egwyddorion Cadwraeth Cadw yw:

1. *Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd.*
2. *Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hollbwysig.*
3. *Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir.*
4. *Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol.*
5. *Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson.*
6. *Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt.*

3.3.8 Gweithredir yr egwyddorion hyn wrth gadw a gwella/rheoli ased (neu grŵp o asedau) hanesyddol, er mwyn sicrhau eu cadw a'u gwella/rheoli mewn modd cynaliadwy. Mae penderfyniadau cytbwys a chyfiawnadwy ynghylch newid yr amgylchedd hanesyddol yn dibynnu ar ddeall pwy sy'n gwerthfawrogi gwahanol asedau hanesyddol, a pham y maent yn gwneud hynny, gan arwain at ddatganiad eglur o'u harwyddocâd, a chyda hynny, medru deall effaith y newid arfaethedig ar yr arwyddocâd hwnnw.

3.3.9 Amgyffredir arwyddocâd trwy ddiffinio gwerth yn erbyn pedwar gwerth treftadaeth sefydledig:

- ***Gwerth Tystiolaethol*** *yw potensial lle i roi tystiolaeth am weithgarwch dynol y gorffennol.*

12 Gall newid diweddarach effeithio fel ffenestri uPVCer gwaeth ar y diddordeb arbennig, a dylid annog triniaethau addasach. (2021).

13 Bydd technoleg adnewyddadwy ac ôl-osod cynaliadwy'n hanfodol ar gyfer llewyrch yr amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol, ond mae angen iddo ymateb i'r diddordeb arbennig.

- *Mae **Gwerth Hanesyddol** yn deillio o'r moddion y gellir cysylltu pobl, digwyddiadau ac agweddau ar fywyd y gorffennol â'r presennol trwy le.*
- *Mae **Gwerth Esthetaidd** yn deillio o'r ffyrdd y mae lle yn ysgogi pobl yn synhwyrol ac yn ddeallusol.*
- *Mae **Gwerth Cymunedol** yn deillio o ystyr lle i'r bobl sy'n uniaethu ag ef, neu i ba rai y mae'n rhan o'u profiad neu'u cof cyfun.*

3.4 Polisi Cynllunio Lleol

3.4.1 Mae Pennod 4 *Cynllun Datblygu Lleol Eryri* (2016-2031) yn cynnwys yr amcanion canlynol ar gyfer Diogelu'r Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol:

3.4.2 *Deall, gwerthfawrogi, gwarchod a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys olion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfoethogi treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.*

3.4.3 *Gwarchod a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiadau'n cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.*

3.4.4 Ym mharagraff 4.6 y CDLl dengys yr Awdurdod ei fod wedi ymrwymo i sicrhau bod Ardaloedd Cadwraethyn parhau i gael eu hamddiffyn rhag datblygu anaddas, a gwella'r ardal a'r gosodiad lle bo modd. Dylai unrhyw ddatblygiad mewn Ardal Gadwraeth barchu ei gosodiad a'i chymeriad, ac fe'i goleuir gan gyfres o Gynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraethar gyfer ardaloedd unigol, sydd i'w cynhyrchu gan yr Awdurdod gan ymgynghori â chymunedau lleol (y prosiect hwn). Amlinella'r cynlluniau rheoli hyn y 'Rhinweddau Arbennig' (neu Ddiddordeb Arbennig) ym mhob un o'r ardaloedd hyn sy'n cyfrannu at ei chymeriad, ac amlinella'r cynigion ar gyfer diogelu a rheoli'r 'Rhinweddau Arbennig' hyn.

3.4.5 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisi parthed y Safle Treftadaeth y Byd yn Harlech a Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Diwydiant Llechi Gogledd Cymru (er mai darpar-safle oedd yr olaf ar adeg cyhoeddi'r CDLl).

3.4.6 Ceir y CDLl yma: https://snowdonia.gov.wales/wp-content/uploads/2022/01/Cynllun-Datblygu-Lleol-Cymraeg-V1.pdf

3.4.7 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn y broses o baratoi Dogfen Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ynghylch yr amgylchedd hanesyddol. Bydd y ddogfen hon yn cynnwys canllaw ynghylch y gofynion ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar asedau hanesyddol.

3.4.8 Bydd y CCA yn darparu canllaw ynghylch asesu a llywio ceisiadau mewn Ardaloedd Cadwraeth.

Cynllun Eryri

3.4.9 Mae Cynllun Eryri yn Gynllun Rheoli statudol. Mae'n gynllun sy'n:

- *Clustnodi'r hyn sy'n gwneud Eryri'n lle arbennig – rhinweddau arbennig Eryri.*
- *Yn pennu sut y byddwn ni a phob sefydliad sy'n gyfrifol am ofalu am Eryri yn gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu rhinweddau arbennig Eryri ar gyfer y dyfodol.*

3.4.10 Bydd Cynllun Eryri o gymorth i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol a llawer o amcanion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Y pwysicaf o'r rhain yw *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a *Deddf yr Amgylchedd*.

3.4.11 Mae Cynllun Eryri'n adnabod mai diben allweddol (Diben 1) y Parc Cenedlaethol yw '*Cadw a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol*'.

3.4.12 Dywed Canlyniad A6 (t.113) y dylai Eryri ddod yn '*enghraifft arloesol yng Nghymru o sut mae gofalu am dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol a'u hyrwyddo*.' Yna mae'r ddogfen yn cynnwys canllaw ynghylch sut mae hyn i'w gyflawni trwy:

- A 6.1 Cefnogi trwsio ac adfer Adeiladau Rhestredig
- A 6.2 Helpu perchnogion Henebion Cofrestredig i'w diogelu'n well.
- A 6.3 Datblygu a gweithredu prosiectau graddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol.

Mae'r cynllun yn rhoi camau gweithredu allweddol a sefydliadau partneriaethol ar gyfer pob un elfen, yn ogystal â pharamedrau mesur ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

3.4.13 Am ragor o fanylion, ceir y cynllun yma:

https://www.snowdonia-npa.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0025/263941/SA-SEA-Cyfrol-1.pdf

4.0 Lle mae Cael Gwybod Rhagor?

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â **Chyngor ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth, Canllaw Cynllunio ac Ymarferol**, sy'n rhoi cyngor ynghylch pwysigrwydd a budd cynnal adeiladau a safleoedd hanesyddol yn ogystal â chanllaw ynghylch camau'n ymwneud â'u heffeithlonrwydd ynni.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolennau cyswllt ychwanegol, hefyd, at ganllawiau eraill ynghylch cadwraeth, trwsio ac effeithlonrwydd ynni adeiladau a safleoedd hanesyddol. Ceir isod rai dolennau cyswllt at bolisïau allweddol a rhagor o gyngor cadwraeth cyffredinol.

4.1 Llywodraeth Cymru

4.1.1 https://llyw.cymru.

4.1.2 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yw'r polisi cenedlaethol sy'n amlinellu canllawiau ynghylch gwneud penderfyniadau cynllunio . Ceir mynediad at PCC yma: https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru.

4.1.3 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig amryw ddogfennau (Nodiadau Cyngor Technegol) ar amryw bynciau:https://llyw.cymru/polisi-a-chanllawiau-cynllunio-ar-gyfer-proffesiynol. O berthnasedd neilltuol, ceir mynediad at NCT 24 (Y Amgylchedd Hanesyddol) yma: https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol.

4.2 Cadw

4.2.1 https://cadw.llyw.cymru

4.2.2 Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Maent yn cyhoeddi rhai canllawiau da ynghylch cadwraeth adeiladau a safleoedd hanesyddol, amgyffred treftadaeth a'r cyd-destun polisi perthnasol.

4.2.3 Egwyddorion Cadwraeth Cadw y cyfeiriwyd atynt eisoes: https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth/egwyddorion-cadwraeth.

4.2.4 Mae Cadw'n cyhoeddi arweiniad defnyddiol am Ardaloedd Cadwraeth:

https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/asedau-hanesyddol-eraill.

4.3 Historic England

4.3.1 https://historicengland.org.uk

4.3.2 Historic England sy'n cyfateb i Cadw yn Lloegr. Mae Historic England yn darparu amryw ddogfennau cymorth ac ymchwil sy'n cynnig cyngor ac arweiniad ynghylch trwsio, cadwraeth, a chamau gwella ynni..

4.4 Historic Environment Scotland

4.4.1 https://www.historicenvironment.scot

4.4.2 Historic Environment Scotland (HES) sy'n cyfateb i Cadw yn yr Alban. Mae HES, yn neilltuol, yn darparu amrywiaeth eang o ddogfennau cymorth ac ymchwil sy'n cynnig cyngor ac arweiniad ynghylch cadwraeth a chamau gwella ynni.

4.5 Society for the Protection of Ancient Buildings (SPAB).

4.5.1 www.spab.org.uk

4.5.2 Mae'r Society for the Protection of Ancient Buildings yn darparu cyngor rhagorol am gadwraeth, a chynnal a chadw yn neilltuol: https://www.spab.org.uk/sites/default/files/maintenance-toolkit/Maitenance%20Calendar_4.pdf